Adroddiad Blynyddol - Awst 2024

# Datganiad Seibiant Byr – Ar gyfer Plant ag Anabledd a'u Rhieni a'u Gofalwyr



## Eich Helpu i Wneud y Dewis Cywir

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ei gwneud yn flaenoriaeth i hyrwyddo canlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Un ffordd o helpu i gyflawni hyn yw darparu ystod o wasanaethau seibiant byr i blant a phobl ifanc ag anabledd. Darperir rhai gwasanaethau yn uniongyrchol gan Addysg, Gwasanaethau Plant, Chwaraeon a Hamdden, Gwasanaethau Ieuenctid neu drwy bartneriaethau â sefydliadau eraill fel Barnardo's. Mae ystod o wasanaethau ar gyfer plant anabl hefyd yn cael eu darparu o dan yr agenda atal gan Teuluoedd yn Gyntaf.

Darperir y datganiad fel canllaw yn unig a gellir cael mwy o wybodaeth am wasanaethau trwy ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt a welir drwy gydol y datganiad hwn.

## Beth yw Seibiant Byr?

Mae seibiannau byr yn rhoi seibiant o ofalu i rieni a gofalwyr sydd â phlant a phobl ifanc ag anableddau. Mae'n rhain yn para ychydig oriau yn ystod y dydd neu dros nos ar gyfer plant ag anableddau cymhleth. Mae yna amrywiaeth dda o wasanaethau sy'n cynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol, chwarae yn y gymuned, chwaraeon a hamdden. Bydd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a grybwyllir yn y datganiad yn seiliedig ar asesiad o anghenion plentyn i sicrhau eu bod yn cefnogi'r plentyn gystal â phosibl ac yn ei helpu i ddatblygu tra'n rhoi cyfle i rieni a gofalwyr gael seibiant. Mae gan rieni a gofalwyr hawl hefyd i gael asesiad yn eu rhinwedd eu hunain a fydd yn helpu'r gweithiwr cymdeithasol/gweithiwr cymorth i ddeall lefel a graddfa'r gofal y maent yn ei ddarparu. Gelwir yr asesiad hwn yn Asesiad Gofalwr.

## I bwy mae Seibiant Byr?

Plant a phobl ifanc 0-17 oed ag anableddau i'w galluogi i:

- Fwynhau amser hwyl a chadarnhaol i ffwrdd o'u rhieni neu ofalwyr
- Datblygu cyfeillgarwch a chymdeithasu
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau cynhwysol gyda phlant nad ydynt yn anabl
- Datblygu sgiliau a galluoedd newydd

Rhieni a gofalwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a phobl ifanc 0-18 oed.

Dylai'r ystod o wasanaethau sydd ar gael ddarparu:

- Dewis
- Hyblygrwydd
- Hyder



## Pwy sy'n Gymwys i Gael Seibiant Byr a Gwasanaeth Cymorth?

Bydd unrhyw riant neu ofalwr sydd â phlentyn ag anabledd sy'n byw o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gallu cael mynediad at un neu fwy o wasanaethau yn dibynnu ar anghenion a chanlyniadau dynodedig eu plentyn a'r hyn y gall y gwasanaeth ei gynnig. Ar wahân i wasanaethau cyffredinol, bydd y rhan fwyaf o wasanaethau'n cynnal asesiad fel y gallant sicrhau eu bod yn iawn i'r plentyn ac yn cefnogi ei anghenion a'r canlyniadau y mae'n dymuno gweithio tuag at eu cyflawni.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Darperir y siart isod fel canllaw i ddangos y 3 lefel o wasanaethau sydd ar gael:

| Lefel | Assessment | Service Example |
|---|---|---|
| **Lefel 1**<br>**Cyffredinol - Yn Agored i Bawb** | Nid oes angen asesiad.<br><br>Bydd rhiant neu ofalwr yn gallu gofyn am wasanaeth drwy ffonio neu alw draw. | • Grwpiau chwarae<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Meithrinfeydd Dydd<br>• Cybiau, Brownis, Sgowtiaid<br>• Clybiau ar ôl ysgol<br>• Gweithgareddau ieuenctid<br>• Clybiau Chwaraeon a Hamdden cyffredinol<br>• Chwaraeon / Gweithgareddau a Chlybiau sy'n Benodol i Anabledd<br>• Gweithgareddau mynediad agored Barnardo's (ar gael drwy'r Mynegai Anabledd – mwy o wybodaeth isod) |
| **Lefel 2**<br>**Wedi'i dargedu i helpu i ddiwallu anghenion** | Bydd asesiad byr yn cael ei gynnal gan y sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth. Gall rhieni a gofalwyr ofyn i weithiwr proffesiynol eu hatgyfeirio. | • Dechrau'n Deg<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Lleoliadau â Chymorth<br>• Gweithgareddau a grwpiau Sparkle<br>• Gofalwyr Ifanc<br>• Pontio'r Bwlch |
| **Lefel 3**<br>**Arbenigol ar gyfer plant cymhleth** | Bydd asesiad hirach (integredig) yn cael ei gynnal gan y Tîm Anabledd (0-25), a fydd yn ystyried seibiannau byr ac a oes pethau eraill a all helpu teulu. | • Barnardo's yn cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (ACT)<br>• Seibiant gyda Gofalwyr Maeth Awdurdod Lleol Blaenau Gwent<br>• Therapydd Galwedigaethol<br>• Pontio'r Bwlch<br>• Cartref Preswyl Augusta House<br>• Seibiant<br>• Taliadau Uniongyrchol<br>• Gwasanaeth Eistedd |

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Manylion pellach am y math o Seibiannau Byr sydd ar gael – Lefel 1 a 2

Mae llawer o wasanaethau sy'n darparu seibiannau byr i blant ag anableddau a'u rhieni ac maent yn cynnwys:

## Gwasanaethau yn y Gymuned

Gwasanaethau sy'n agos at ble mae'r plentyn a'r teulu'n byw fel; Sgowtiaid, Geidiau, clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau ieuenctid, clybiau chwaraeon, grwpiau chwarae cyn-ysgol, clybiau gwyliau/chwarae a gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gwarchodwyr plant. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer y rhain a seibiannau byr lefel 1 a 2 eraill ar y rhyngrwyd, Facebook, cyfryngau cymdeithasol a hefyd drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Blaenau Gwent:

Ffôn: 08000 32 33 39
E-bost: fis@blaenau-gwent.gov.uk
Gwe: www.bgfis.org.uk

Facebook: Blaenau Gwent Family Information Service
Instagram: Blaenau_Gwent_fis
X: FIS_BG



## Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent yn ymroddedig i ddarparu cyfleoedd Gwaith Ieuenctid i bobl ifanc 11-25 oed. Mae'r gwasanaethau'n amrywiol ac yn cwmpasu gwahanol leoliadau, gan gynnwys ysgolion, darpariaeth stryd, cymunedau a chlybiau ieuenctid.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dull cyfannol o gefnogi pobl ifanc ym mhob agwedd ar eu datblygiad personol. Y nod yw rhoi'r sgiliau, y wybodaeth, y gefnogaeth a'r arweiniad angenrheidiol iddynt i'w helpu i gyflawni eu dyheadau a'u nodau.

Mae cynhwysiant yn greiddiol i werthoedd y gwasanaeth, gan ddarparu ar gyfer anghenion unigryw pob person ifanc. Er nad yw'r gwasanaeth yn arbenigo mewn maes penodol o anghenion, mae'r gwasanaeth yn ymfalchïo mewn creu amgylcheddau diogel, hwyl a chroesawgar sy'n meithrin twf, dysgu a datblygiad.

Ffôn 01495 355811
E-bost youth.service@blaenau-gwent.gov.uk
Tudalen we Gwasanaethau Ieuenctid | CBS Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)
https://www.facebook.com/BG.YouthServive/
Facebook

## Chwaraeon Anabledd

AMae gwasanaethau Aneurin Leisure ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a chorfforol sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anableddau.Yn gweithredu yn ystod y tymor a gwyliau ysgol, maent wedi'u lleoli yng nghyfleusterau hamdden Blaenau Gwent.

Ffôn: 07773312662
E-bost:
chris.garrett@aneurinleisure.org.uk

Tudalennau gwe:
https://www.aneurinleisure.org.uk/sports-development

Tudalennau cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Aneurin Leisure Sports Development / X - @ALSportDev

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

# Teuluoedd yn Gyntaf

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r pwyslais ar ymyrraeth gynnar, atal, a hyrwyddo newid hirdymor realistig a chynaliadwy.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf Blaenau Gwent yn cynnig gwasanaeth i deuluoedd mewn cymunedau, ysgolion, colegau, Canolfannau Hamdden, Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored, Canolfannau Cymunedol a chartrefi teuluoedd.

Mae gan Teuluoedd yn Gyntaf ym Mlaenau Gwent dair elfen allweddol:

*Cefnogaeth rhianta.
*Elfen Gofalwyr Ifanc.
*Elfen Anabledd. Grŵp Cymorth Small Steps i Rieni/Gofalwyr sydd â phlant a/neu bobl ifanc sydd â diagnosis neu sy'n cael eu hasesu. Cynhelir y Grŵp Cymorth Small Steps ar ddydd Mercher olaf y mis yn ICC Blaenau rhwng 9 – 11.30am. Cynhelir Grŵp Cynhwysol Shine ar brynhawn dydd Mawrth rhwng 3.30 a 5.30 pm yn ysgol Pen y Cwm. 0 – 25 oed – mae'r pwyslais ar fod yn grŵp cynhwysol lle mae croeso i bob plentyn a pherson ifanc.



Ffôn: 01495 369621
E-bost:
Tudalen we : Families First | Blaenau Gwent CBC (blaenau-gwent.gov.uk)
Facebook/cyfryngau cymdeithasol Families First - Blaenau Gwent | Abertillery | Facebook

# Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan 4 oed. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth i blant 0-4 oed a'u teuluoedd fel y gallant ddysgu, datblygu a ffynnu.

Mae pedair elfen allweddol i'r rhaglen:

- Ymweliadau Iechyd Uwch
- Gofal o ansawdd am ddim i blant 2–3 oed
- Cefnogaeth i rieni
- Cefnogaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae yna hefyd ystod o wasanaethau cymorth i helpu i ddiwallu ystod amrywiol o anghenion yr holl deuluoedd blynyddoedd cynnar sy'n byw ym Mlaenau Gwent gan gynnwys rhaglen allgymorth a thri Gweithiwr Cymorth Tadau sy'n gweithio o fewn y tîm, gan gefnogi teuluoedd ledled y fwrdeistref.

Ffôn: 08000 323339
E-bostFlying.Start@blaenau-gwent.gov.uk
Tudalen weFlying Start | Blaenau Gwent CBC (blaenau-gwent.gov.uk)
Facebook/cyfryngau cymdeithasol (1) Flying Start - Blaenau Gwent | Facebook

# Sparkle

At Sparkle we provide family activities such as Clubs, Medicinema, Family Fun Days, Little Stars and Family Swim Sessions for children/young people 0-18 old who have been diagnosed, or undergoing assessment of disability or developmental difficulties living in Gwent.

Sparkle exists to support local families where there is a child/young person diagnosed, or undergoing assessment of disability or developmental difficulties and we would like to support you and your family as much as possible.

Phone 01633 748093
Email enquiries@sparkleappeal.org
Webpage - Sparkle, helping special children shine (sparkleappeal.org)
Referral form - SparkleNet | Sparkle Leisure Referral Form (office.com)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

## Pontio'r Bwlch

Pontio'r Bwlch Gwent (BTGG) yw cynllun seibiant NEWCIS, sy'n rhoi cyfnod byr o orffwys i chi o'ch rôl ofalu.

Mae gofal seibiant yn golygu cymryd seibiant o ofalu, tra bod rhywun arall yn gofalu am y person rydych chi'n gofalu amdano. Mae'n rhoi amser i chi ofalu am eich hun ac yn eich helpu i beidio â gorflino.

Gallai seibiant byr o'ch rôl ofalu gynnwys mynychu apwyntiad personol, digwyddiad neu gymdeithasu gyda ffrindiau.

Os ydych chi'n gofalu am rywun sy'n byw ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd neu Dorfaen, gallech fod yn gymwys i gael mynediad i'r cynllun hwn, sydd wedi ennill gwobrau.

Mae'r cynllun ar agor i ofalwyr di-dâl sy'n oedolion a gofalwyr ifanc (o dan 16 oed).
Am fwy o wybodaeth:
Pontio'r Bwlch Gwent - NEWCIS
btgsw@newcis.org.uk

## Mynegai Anabledd

Mae gan y Mynegai Anabledd amrywiaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau (gweler y dolenni isod i gael gwybod mwy). Mewn perthynas â Seibiant Byr, bydd cofrestru i'r Mynegai yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol rannu gwybodaeth gyda chi am ba wasanaethau seibiant byr sydd ar gael yn lleol, gan gynnwys y gwasanaethau presennol ac unrhyw wasanaethau newydd sy'n cael eu datblygu.

Gwybodaeth bellach:
Leandra Hunt, Cydlynydd Mynegai Anabledd
Ffôn: 01495 369617.
E-bost: Leandra.Hunt@blaenaugwent.gov.uk



## Manylion am y math o Seibiannau Byr sydd ar gael – Lefel 3 ac yn dilyn asesiad a chadarnhad o gymhwysedd gan y Tîm Anabledd (0-25)

Pan fydd y Tîm Anabledd (0-25) wedi cynnal asesiad ac yn cytuno bod plentyn/person ifanc yn gymwys i gael gwasanaeth, dyma'r dewisiadau:

### Taliadau Uniongyrchol

Byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei wneud drwy ddarparu 'taliad uniongyrchol' i'r teulu. Cytunir ar ba wasanaeth sydd ei angen a beth ddylai ei gyflawni ar gyfer y plentyn. Byddai gweithiwr dynodedig y plentyn yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y mae'r teulu'n ei brynu gyda'r taliad uniongyrchol yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

Ar ôl cytuno ar daliad uniongyrchol, mae teuluoedd yn trefnu i rywun wneud y gwaith gyda'u mab neu ferch. Gallai hyn fod yn ofalwr sy'n dod i'r cartref neu gallai fod yn rhywun i fynd â'r person ifanc allan. Os cytunir ar daliad uniongyrchol gellir rhoi cymorth i helpu'r teulu i ymdopi. Gall y Tîm Anabledd (0-25) roi gwybodaeth am hyn.

### Seibiant Gofal Maeth

Seibiant Dydd a/neu Dros Nos i blant ag anabledd a'u rhieni sy'n ofalwyr a ddarperir gan ofalwr maeth cymeradwy yng nghartref y gofalwr maeth.

### Cartref Preswyl Augusta House

Egwyl/seibiant byr dros nos i blant rhwng 10 oed (tua) a 17 oed mewn lleoliad preswyl.

### Gwasanaeth Eistedd

Eisteddwyr hyfforddedig gan asiantaeth gofal sy'n gallu gofalu am blant yng nghartref y teulu tra bod y rhieni neu'r gofalwyr yn cael seibiant.

# Sut Ydw i'n Gofyn am Seibiant Byr?

## Cysylltu ac Atgyfeirio

IfOs oes gan eich plentyn anabledd, gallwch ofyn am help drwy ffonio neu e-bostio:
Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth (IAA)
Awdurdod Lleol Blaenau Gwent
Ffôn: 01495 315700
E-bost - duty.team@blaenau-gwent.gov.uk

Byddant yn gofyn i chi am rywfaint o wybodaeth am eich plentyn a'ch amgylchiadau i weld a ydych yn gymwys i gael asesiad.

Os nad ydych yn gymwys i gael asesiad a/neu os yw'r person ar ben arall y ffôn/e-bost yn teimlo y gall anghenion/canlyniadau Seibiant Byr eich plentyn a'ch rhai chi'ch hun gael eu diwallu gan wasanaethau cymunedol a chyffredinol, bydd y person yn eich cyfeirio at wasanaethau, e.e. gwasanaethau Lefel 1 a Lefel 2 a amlinellir uchod.

## Tîm Anabledd (0-25)

Os ydych chi'n gymwys i gael asesiad, bydd y Tîm/gweithiwr IAA yn gofyn i'r Tîm Anabledd (0-25) gwblhau Asesiad Integredig (IA) i archwilio eich cymhwysedd i gael mynediad at Wasanaeth(au) Seibiant Byr.

Ar ôl cwblhau'r asesiad, bydd y gweithiwr wedyn yn archwilio gyda chi a'ch plentyn pa Seibiant Byr a allai ddiwallu eich anghenion/canlyniadau ac yn cynllunio'r gwasanaeth(au) hyn. Unwaith y bydd yn weithredol, bydd y gwasanaeth, drwy gynllun (Cynllun Gofal a Chymorth) yn cael ei adolygu 6 wythnos ar ôl dechrau'r gwasanaeth ac yna o leiaf bob 6 mis (Gofynion Statudol Llywodraeth Cymru) i sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i ddiwallu eich holl anghenion a chanlyniadau dynodedig.

## Gwasanaeth Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (ACT) Barnardo's

Mae'r Awdurdod Lleol yn comisiynu (ariannu) Barnardo's i ddarparu gwasanaethau/cymorth i blant a phobl ifanc ag anabledd a'u teuluoedd. Nid yw ACT yn darparu gwasanaethau egwyl/seibiant byr. Fodd bynnag, gall y tîm ACT gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i ddod yn fwy annibynnol i'w galluogi i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau lleol ac i gael mynediad at weithgareddau seibiant byr cynhwysol. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac am gyfnod penodol. Gall cymorth gynnwys gwaith grŵp i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol ac adeiladu annibyniaeth. Gellir cefnogi plant a phobl ifanc ar sail 1:1 i integreiddio i glybiau a gweithgareddau yn y gymuned sydd, yn eu tro, yn rhoi seibiant byr i'r plentyn a'i deulu. Mae'r tîm hefyd yn darparu gweithgareddau lles rhieni / gofalwyr a gallant atgyfeirio at asiantaethau cymorth eraill.

Ffôn - 01495355904
E-bost - barnardosblaenaugwentservice@barnardos.org.uk
Gwefan - https://www.barnardos.org.uk/get-support/services/blaenau-gwent-achieving-change-together-service-act
Facebook - https://www.facebook.com/ACTBlaenauGwent/?_rdr

## Therapydd Galwedigaethol

Mae yna wasanaeth Therapi Galwedigaethol hefyd o fewn y tîm Anabledd (0-25) ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd a allai fod angen asesiad/cymorth i'w helpu i gael mynediad i bob rhan o'u cartref a mynd allan yn eu cymuned. I wneud cais am asesiad Therapi Galwedigaethol cysylltwch â thîm IAA Blaenau Gwent - yr un ffordd ag y byddech yn gofyn am asesiad gan y Tîm Anabledd (0-25) (gweler uchod).



Blaenau Gwent

## Cymorth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN)

IMae ISCAN yn cynnig llwybr i blant a phobl ifanc sydd â 2 neu fwy o anghenion datblygiadol a/neu gymhleth o enedigaeth hyd at 18 oed.  Mae ISCAN yn fan lle mae gweithwyr proffesiynol yn dod at ei gilydd i feddwl am anghenion plant a'u teuluoedd a phenderfynu ar y ffordd orau o'u cefnogi.

Rydym yn derbyn atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol yn unig.  Gall ISCAN hefyd gynnig cefnogaeth gan ein tîm Cydlynu Gofal – eu nod yw darparu un pwynt cyswllt i rymuso rhieni i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu plentyn yn yr hirdymor.  Gallant hefyd atgyfeirio at wasanaethau perthnasol eraill a allai gefnogi'r teulu.

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Rachel Williams, Cydlynydd Gogledd ISCAN ar:

Ffôn: 01873 733 163
E-bost : ABB.ISCANSectorNorth@wales.nhs.uk
Tudalen we : ISCAN (Integrated Support for Children with Additional Needs) :: Healthier Together (cymru.nhs.uk)



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent